Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
NP15 1GA

11eg Chwefror 2025

**Hysbysiad o gyfarfod:**

# Fforwm Mynediad Lleol

## Dydd Mercher, 19eg Chwefror, 2025 at 2.00 pm, Antur Awyr Agored Gilwern, Y Fenni NP7 0AB

# AGENDA

.

| Eitem No | Eitem | Tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am Absenoldeb / Cyflwyniadau.** | |
| 2. | **Datganiadau o Fuddiant** | |
| 3. | **Cadarnhau a llofnodi cofnodion cyfarfod Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy ar 7fed Tachwedd 2024 (Ynghlwm).** | 1 - 6 |
| 4. | **Camau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod blaenorol nad ydynt ar yr agenda:**<br>• Manylion mewngofnodi i danysgrifiad y Cyfnodolyn IPRoW 'Waymark' wedi'u dosbarthu - cam wedi'i gwblhau<br>• Diweddariad recriwtio aelodau FfMLl ychwanegol<br>• Prosiect iechyd lles rhanbarthol dosbarthu manylion cyswllt - cam wedi'i gwblhau<br>• Dolen Map Data Cymru - cam wedi'i gwblhau | |
| 5. | **Diweddariad prosiect Traciau a Llwybrau (dolen i'r cofnodion):**<br><br>https://www.wyevalley-nl.org.uk/wp-content/uploads/Notes-of-LWTT-SG-05-12-24.pdf )<br>(Subgroup update) | |
| 6. | **Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru (nodiadau ynghlwm) (Sarah Tindal, Uwch Swyddog Pobl a Lleoedd, De-ddwyrain Cymru / Bob** | |

| | | |
|---|---|---|
| | **Campbell Uwch Swyddog Rheoli Tir, De-ddwyrain Cymru)** | |
| 7. | **Cyflwyniad Strategaeth Hamdden Cyfoeth Naturiol Cymru (Sarah Tindal, Uwch Swyddog Pobl a Lleoedd, De-ddwyrain Cymru / Bob Campbell Uwch Swyddog Rheoli Tir, De-ddwyrain Cymru)** | To Follow |
| 8. | **Adolygiad o system flaenoriaethu Sir Fynwy (Ruth Rourke, Rheolwr Mynediad Cefn Gwlad a Richard Garner, Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus)** | |
| 9. | **Blaengynllun gwaith FfMLl (i'w nodi)** | 7 - 8 |
| 10. | **Dyddiadau a lleoliadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol** | |

**Paul Matthews**
**Prif Weithredwr**

CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL SY'N DILYN:

Anne Underwood
Irene Brooke
Anthea Fairey
Shan Lewis
Phil Mundell
Phillip Allsopp
Bethany Handley
Barbara Heys
Ian Mawdsley
Terence Mead
Sallie Roderick
Jack Thurston
Kelvin Varney
Huw Watkins
Rhys Wynne-Jones
John Askew
County Councillors: Sara Burch
:

## Gwybodaeth Gyhoeddus

**Mynediad i gopïau papur o agendâu ac adroddiadau**
Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

**Edrych ar y cyfarfod ar-lein**
Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

**Y Gymraeg**
Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd trwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn yn barchus i chi roi rhybudd digonol i ni er mwyn darparu ar gyfer eich anghenion.

# Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

### Ein Pwrpas

- i ddod yn sir ddi-garbon, gan gefnogi lles, iechyd ac urddas i bawb ar bob cam o'u bywydau.

### Amcanion rydym yn gweithio tuag atynt

- Lle teg i fyw lle mae effeithiau anghydraddoldeb a thlodi wedi'u lleihau;
- Lle gwyrdd i fyw a gweithio gyda llai o allyriadau carbon a gwneud cyfraniad cadarnhaol at fynd i'r afael â'r argyfwng yn yr hinsawdd a natur;
- Lle ffyniannus ac uchelgeisiol, lle mae canol trefi bywiog a lle gall busnesau dyfu a datblygu;
- Lle diogel i fyw lle mae gan bobl gartref maen nhw'n teimlo'n ddiogel ynddo;
- Lle cysylltiedig lle mae pobl yn teimlo'n rhan o gymuned ac yn cael eu gwerthfawrogi;
- Lle dysgu lle mae pawb yn cael cyfle i gyrraedd eu potensial.

## Ein Gwerthoedd

**Bod yn agored**. Rydym yn agored ac yn onest. Mae pobl yn cael cyfle i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, dweud beth sy'n bwysig iddynt a gwneud pethau drostynt eu hunain/eu cymunedau. Os na allwn wneud rhywbeth i helpu, byddwn yn dweud hynny; os bydd yn cymryd peth amser i gael yr ateb, byddwn yn esbonio pam; os na allwn ateb yn syth, byddwn yn ceisio eich cysylltu gyda'r bobl a all helpu - mae adeiladu ymddiriedaeth ac ymgysylltu yn sylfaen allweddol.

**Tegwch**. Darparwn gyfleoedd teg, i helpu pobl a chymunedau i ffynnu. Os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn deg, byddwn yn gwrando ac yn esbonio pam. Byddwn bob amser yn ceisio trin pawb yn deg ac yn gyson. Ni allwn wneud pawb yn hapus bob amser, ond byddwn yn ymrwymo i wrando ac esbonio pam y gwnaethom weithredu fel y gwnaethom.

**Hyblygrwydd**. Byddwn yn parhau i newid a bod yn hyblyg i alluogi cyflwyno'r gwasanaethau mwyaf effeithlon ac effeithiol. Mae hyn yn golygu ymrwymiad gwirioneddol i weithio gyda phawb i groesawu ffyrdd newydd o weithio.

**Gwaith Tîm**. Byddwn yn gweithio gyda chi a'n partneriaid i gefnogi ac ysbrydoli pawb i gymryd rhan fel y gallwn gyflawni pethau gwych gyda'n gilydd. Nid ydym yn gweld ein hunain fel 'trefnwyr' neu ddatryswyr problemau, ond gwnawn y gorau o syniadau, asedau ac adnoddau sydd ar gael i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y pethau sy'n cael yr effaith mwyaf cadarnhaol ar ein pobl a lleoedd.

**Caredigrwydd** – Byddwn yn dangos caredigrwydd i bawb yr ydym yn gweithio gyda nhw, gan roi pwysigrwydd perthnasoedd a'r cysylltiadau sydd gennym â'n gilydd wrth wraidd pob rhyngweithio.

Cylch Gorchwyl

Fforwm Mynediad Lleol Sir Fynwy yw'r Fforwm Mynediad Lleol statudol ar gyfer Sir Fynwy (ac eithrio y rhan o'r sir sy'n eistedd ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog), yn unol â'r hyn sy'n ofynnol o dan y Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.

Swyddogaeth y Fforwm yw cynghori'r awdurdod lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru ac eraill ar y gwelliannau i fynediad y cyhoedd i dir yn yr ardal at ddibenion hamdden yn yr awyr agored a mwynhad o'r ardal, a chynghori a chynorthwyo o ran rhoi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy Cyhoeddus ar waith.

Aelodaeth

Caiff aelodau'r Fforwm eu penodi gan yr Awdurdod Penodi (Cyngor Sir Fynwy) yn unol â'r rheoliadau perthnasol. Mae aelodaeth y fforwm ar hyn o bryd fel a ganlyn:

(cynrychiolydd yr "Awdurdod Penodi")

Sylwedyddion:

Cynrychiolwyr o Gyngor Sir Fynwy a Cyfoeth Naturiol Cymru

Anne Underwood

Irene Brooke

Anthea Fairey

Shan Lewis

Phil Mundell

Phillip Allsopp

Bethany Handley

Barbara Heys

Ian Mawdsley

Terence Mead

Sallie Roderick

Jack Thurston

Kelvin Varney

Huw Watkins

Rhys Wynne-Jones

John Askew

County Councillors: Sara Burch (the "Appointing Authority" representative)

Observers;

Representatives from Monmouthshire County Council and Natural Resources Wales